PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 7 Ebrill, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma. [Insert link]

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges. J.M. Norman, A. Parker, S.M. Perkes, N.C. Thomas a L.O. Rowlands.

Aelodau cyfetholedig: R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru). Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd) a C. Williams (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio),

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr T.H. Jarvie a G. Scott (Addysg Gymraeg)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYNLLUNIAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL DRAFFT AR GYFER YSGOLION (CYF) –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO'R Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer Ysgolion, a bod y Pwyllgor yn diolch i'r Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed a'r holl staff sy'n ymwneud â datblygu'r Cynllun drafft.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BAFILIWN PIER PENARTH A'R TREFNIADAU GWAITH POSIBL A CHYFLEOEDD YN Y DYFODOL AR GYFER TY A GERDDI CYMIN (CYF) -

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO'R penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ar 14 Mawrth, 2022 (rhif cof. C880), a nodi y byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r mater hwn.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMOR Y GWANWYN 2022 –

ARGYMHELLWYD – DYLID diolch i aelodau staff cynrychioliadol Ysgol Gynradd Colcot ac Ysgol Iolo Morganwg am eu cyflwyniadau, a bod cynnwys eu cyflwyniadau yn cael ei nodi.

Y rhesymau dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.